Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pontllanfraith
# Bryn Pavillion
# Bryn Estate
# Bryn Road
# Pontllanfraith
# Y Coed Duon
# NP12 2DA

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/04/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Pontllanfraith yn cyfarfod mewn ystafell fechan ym mhafiliwn chwaraeon Pontllanfraith, ger y Coed Duon yn awdurdod lleol Caerffili. Mae'n cynnig pum sesiwn bore a phum prynhawn yr wythnos i blant rhwng dwy a phedair oed. Mae'r lleoliad hefyd yn darparu gofal i blant dwy oed fel rhan o gynllun gofal Dechrau'n Deg.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru ar gyfer 14 o blant. Ar hyn o bryd, mae 18 o blant ar y gofrestr. Mae saith ohonynt wedi cyrraedd eu trydydd pen-blwydd ac allan o'r rhain mae pedwar yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Saesneg yw iaith y cartref bron pob un o'r plant.

Mae tri aelod o staff amser llawn yn y lleoliad. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Medi 2015 ac mae'n meddu ar gymhwyster Diploma Lefel 5 Q.C.F mewn arweinyddiaeth ym maes gofal, addysg a datblygiad plant. Mae'r ddau aelod arall yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 NVQ ac yn gweithio tuag at ennill Lefel 5.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ionawr 2016 a chan Estyn ym mis Tachwedd 2009.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn
- ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol i'r plant
- gan y plant ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu
- safon ymddygiad plant yn dda iawn
- darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau rhifedd a llythrennedd plant
- llawer o gyfleoedd i blant wneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan arweinydd y cylch weledigaeth glir sy'n cael ei rhannu'n effeithiol ymysg rhanddeiliaid
- ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin ac yn gweithio yn dda fel tîm
- ymarferwyr yn cyflawni eu rolau yn gydwybodol ac effeithiol
- ymarferwyr yn derbyn cyfleoedd cyson a pherthnasol i ddatblygu'n broffesiynol
- arfer gyson o hunanarfarnu yn bodoli
- cynllun gwella'r lleoliad yn targedu meysydd priodol, ac yn clustnodi adnoddau digonol ar gyfer eu gweithredu

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod plant yn cymhwyso eu gwybodaeth rhifedd ar draws y meysydd dysgu

A2 Darparu cyfleoedd eang i blant ddefnyddio cyfryngau amrywiol wrth ddatblygu eu medrau creadigol

A3 Sicrhau bod yr adroddiad hunanarfarnu yn nodi'n glir y meysydd gwella sydd angen eu cynnwys yng nghynllun gwella'r lleoliad

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad mae mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn gwahanol. Gwnânt gynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol sydd yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae medrau llythrennedd a chyfathrebu'r plant yn datblygu'n dda o ystyried eu man cychwyn isel fel dysgwyr Cymraeg. Mae medrau gwrando bron pob plentyn yn datblygu'n dda. Maent yn deall ac yn medru dilyn cyfarwyddiadau a roddir iddynt yn y Gymraeg yn gywir, gan ddangos dealltwriaeth drylwyr o'r iaith. Datblygant ddealltwriaeth ddefnyddiol o eiriau ac ymadroddion ac maent yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon Cymraeg. Gall y rhan fwyaf ddwyn dysgu blaenorol i gof yn ystod gweithgareddau'r dydd, fel enwi lliwiau a siapiau yn y Gymraeg. Maent yn ymateb yn fywiog, er enghraifft wrth wrando ar stori am lindysyn llwglyd. Mae'r mwyafrif yn dewis ymweld â'r ardal ddarllen yn achlysurol a gwyddant sut i drin llyfr yn gywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adnabod eu henwau ar ffurf print ac mae ychydig iawn yn adnabod enwau rhai o'r plant eraill. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer creu marciau i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar gyda rheolaeth gynyddol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd priodol. Mae bron pob un yn ymuno mewn caneuon rhif yn gywir ac mae'r mwyafrif yn cyd-gyfrif yn gywir hyd at 15, er enghraifft wrth gyfri cylchoedd yn ystod amser cyfarch. Fodd bynnag, nid yw plant yn defnyddio eu gwybodaeth rhifedd yn ddigonol ar draws y meysydd dysgu.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn dringo ac yn pedlo beiciau yn hyderus ac maent yn trin offer bach manwl fel sisyrnau gyda rheolaeth gynyddol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn dod i'r lleoliad yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym. Mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Maent yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau yn dda, er enghraifft, wrth gwblhau jig-so. Maent yn cyd-chwarae'n ddiwyd gan rannu a chymryd tro yn hwylus.

Mae bron pob un yn ymddwyn yn dda, gyda'r mwyafrif yn cofio dweud 'diolch' yn ystod amser byrbryd. Maent yn hapus, yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni'r ymarferwyr ac yn barod i ofyn am gymorth a chefnogaeth pan fo angen.

Mae bron pob un o'r plant yn parchu'r adnoddau ac yn barod i helpu i dacluso, gydag anogaeth.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau annibynnol da iawn, er enghraifft wrth daenu ymenyn ar dost ac arllwys eu diod eu hunain. Maent yn ymwybodol o'r angen

am hylendid da trwy olchi dwylo cyn byrbryd ac ar ôl bod yn y tŷ bach. Mae llawer o blant yn barod i roi cynnig ar wisgo eu cotiau eu hunain a gwisgo esgidiau glaw gydag ychydig o gymorth.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau cyffrous y tu mewn a thu allan, i ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau diddorol ar draws y meysydd dysgu gan roi pwyslais priodol ar chwarae a dysgu trwy brofiadau uniongyrchol. Mae cyfleoedd dyddiol i blant wneud dewisiadau gan alluogi'r rhan fwyaf ohonynt i wneud cynnydd da tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r holl ymarferwyr yn cynllunio gan ddilyn themâu sy'n cysylltu'n briodol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r cynllunio yn briodol ac yn hyblyg; er enghraifft, caiff ei addasu pan ddaw diwrnod o eira er mwyn manteisio ar gyfle prin i'r plant ddysgu amdano. Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer bodloni anghenion pob plentyn yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ddyddiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a chyfathrebu plant yn dda. Mae'r ymarferwyr yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd a chyda'r plant yn gyson. O ganlyniad, mae'r plant yn clywed yr iaith trwy gydol y sesiwn ac yn cael eu trochi ynddi. Mae cyfleoedd da yn bodoli i blant gymryd rhan mewn canu ystod o ganeuon trwy gydol y sesiwn a defnyddir y caneuon hyn i atgyfnerthu strwythur y sesiwn yn dda. Mae cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn ystyrlon, er enghraifft ysgrifennu eu henwau mewn cardiau Nadolig a Santes Dwynwen. Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi buddsoddi mewn creu ardal ddarllen gysurus. O ganlyniad, mae'r mwyafrif yn cael eu denu i ddefnyddio'r ardal yn ddigymell.

Ychydig o gyfleoedd priodol sydd i'r plant ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu eraill. Fodd bynnag, maent yn derbyn cyfleoedd i gyd-gyfrif yn rheolaidd, er enghraifft trwy gyfrif bechgyn a merched yn ystod amser byrbryd ac mae rhifau wedi eu gosod yn amlwg yn yr ardaloedd dysgu. Mae gan y lleoliad ardal fathemateg ddeniadol gydag ystod eang o adnoddau safonol sydd o fewn cyrraedd y plant. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn dewis chwarae yn yr ardal hon.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o ymwelwyr i gyfoethogi'r ddarpariaeth ac i gyfrannu'n llwyddiannus at ddysgu'r plant, er enghraifft dynion tân i ddatblygu cyswllt a dealltwriaeth y plant o'r gweithwyr yn y gymuned.

Mae cyfleoedd da yn bodoli i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a medrau corfforol y plant. Mae cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau creadigol, er enghraifft paentio, gludo a defnyddio pinnau ffelt i greu llun. Fodd bynnag, nid oes digon o amrywiaeth i ymestyn medrau creadigol y plant ymhellach. O ganlyniad, mae cyfleoedd i blant fynegi eu hunain yn greadigol yn gyfyng.

Mae'r plant yn cael eu cyflwyno yn llwyddiannus i draddodiadau a dathliadau Cymru trwy ganu hwiangerddi Cymreig a gweithgareddau fel dathlu Dydd Santes Dwynwen a gwisgo gwisg draddodiadol a chael profiad o ddawnsio gwerin ar Ddydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob un o'r ymarferwyr wybodaeth gynhwysfawr a chadarn am egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn defnyddio ystod addas o stragtegaethau dysgu effeithiol i annog a chymell y plant i ddysgu; er enghraifft, maent yn defnyddio amser cylch i annog medrau gwrando a darllen yn dda. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd dychmygus o'r adnoddau, sy'n denu diddordeb plant ac yn gwella eu dysgu. Mae'r ymarferwyr yn cyd-chwarae ac yn rhyngweithio'n effeithiol gyda'r plant. Maent yn ymyrryd yn bwrpasol i herio a symud y dysgu ymlaen, er enghraifft rhoi plasteri i blant wrth iddynt chwarae rôl gydag offer meddyg, gan ymestyn eu medrau corfforol mân a chymdeithasol. Maent yn fodelau iaith priodol, ac yn siarad yn gyson gyda'r plant yn y Gymraeg i ymestyn eu geirfa. Maent yn canmol yn effeithiol i reoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, gan gyfrannu at awyrgylch hapus a chartrefol. . Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn annog digon ar y plant i ddefnyddio rhifedd yn y gwahanol ardaloedd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus fel tîm. Mae pob aelod yn gwybod beth yw ei rôl. Maent yn cefnogi ei gilydd yn effeithiol i sicrhau bod gweithgareddau'n mynd yn eu blaen yn hwylus. Maent yn caniatáu i blant wneud eu penderfyniadau eu hunain, sy'n cyfranogi'n dda at feithrin eu medrau dysgu annibynnol. Mae gan ymarferwyr wybodaeth drylwyr am anghenion personol plant, a gwybodaeth gyfredol am eu cryfderau. O ganlyniad, maent yn ymateb yn llwyddiannus i anghenion unigol pob plentyn gan ddarparu gweithgareddau priodol iddynt yn unol â'u gallu.

Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni am gynnydd eu plentyn yn effeithiol trwy gyfarfodydd anffurfiol. Trwy lyfrau diwedd blwyddyn, fe gaiff rhieni gofnod gwerthfawr o gynnydd eu plentyn tra byddant yn y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad weithdrefnau sefydlu effeithiol i sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn ddidrafferth yno. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar iawn o'r holl blant ac yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn gyson trwy weithgareddau dyddiol. Mae plant yn derbyn cyfleoedd rheolaidd i drafod eu teimladau a chânt eu hannog yn effeithiol i gymryd eu tro.

Mae amser byrbryd yn amser cymdeithasol ac mae plant yn cael eu hannog i fod yn annibynnol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo'r egwyddor o fwyta'n iach a phwysigrwydd yfed dŵr, er enghraifft, yn ystod amser byrbryd. Mae'r cyfleoedd amrywiol a ddarperir i'r plant wneud ymarfer corff yn dda. Cânt gyfleoedd, er enghraifft, i redeg ar ôl barcud a symud i gyfeiliant cerddoriaeth. Mae bob plentyn yn glanhau eu dannedd bob dydd, sy'n annog gofal deintyddol effeithiol.

Mae'r lleoliad yn darparu ystod werthfawr o brofiadau sy'n meithrin datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda, er enghraifft, canu'r weddi 'Iesu Tirion' cyn byrbryd a gwahodd athrawes ysgol Sul i siarad gyda nhw.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i'r plant wella eu dealltwriaeth o waith pobl sy'n eu helpu ac mae cyfleoedd addas iddynt gymryd rhan mewn dathliadau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol at godi ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau cefnogi'r awdurdod lleol i gefnogi ymarferwyr wrth adnabod anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac i ddarparu'n briodol ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cartrefol a chyfeillgar yn bodoli ac yn treiddio trwy'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn ystyried cefndiroedd gwahanol y plant ac yn eu gwerthfawrogi fel unigolion yn unol â'r wybodaeth honno. O ganlyniad, mae plant yn hapus iawn yng nghwmni ei gilydd ac yn barod iawn i gyd chwarae. Gall pob un o'r plant fanteisio'n gyfartal ar holl feysydd a darpariaeth y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn dangos parch tuag at ei gilydd gan ddangos esiampl dda i'r plant. Maent yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol i reoli ymddygiad yn effeithiol.

Mae'r lleoliad a'r ardal y tu allan yn gyfyng iawn, ond mae ymarferwyr yn gweithio'n galed i greu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol. Mae'r ardaloedd chwarae wedi eu dynodi'n glir gydag arddangosfeydd pwrpasol o luniau'r plant yn ymwneud â'u gweithgareddau. Mae'r cyflenwad da o adnoddau yn safonol ar gyfer bron pob maes dysgu ac o fewn cyrraedd y plant. O ganlyniad, mae'r plant yn brysur ac yn meddu ar fedrau annibynnol da iawn.

Mae'r ardal y tu allan yn ddiogel, ond nid yw'n bosibl caniatáu i'r plant gael mynediad iddo yn annibynnol. Fodd bynnag, mae'r ymarferwyr yn gwneud yn iawn am hyn trwy gynllunio'n effeithiol ar gyfer gweithgareddau dyddiol y tu allan. Yn achlysurol, defnyddir y cae chwarae i gyfoethogi ac atgyfnerthu gweithgareddau corfforol ymhellach, fel cynnal gemau a chwaraeon ar raddfa ehangach.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinydd y lleoliad yn frwdfrydig mewn perthynas â'i gwaith, ac mae ganddi weledigaeth glir yn seiliedig ar ddarparu profiadau eang ar gyfer y plant trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda'r pwyllgor rheoli a

gweddill y staff ac mae'r rhieni'n deall a gwerthfawrogi'r hyn mae'r cylch yn ei gyflawni. O ganlyniad, mae hi'n llwyddo i greu ethos yn y lleoliad, lle mae plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae staff yn rhannu gwerthoedd cytûn am ddysgu, ymddygiad a pherthynas, ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth. Maent i gyd yn cydweithio'n dda iawn fel tîm, sy'n golygu bod y cylch yn rhedeg yn llyfn o ddydd i ddydd, a phawb yn deall eu rolau yn llawn. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n rhoi sylw priodol i ddatblygiad parhaus y plant a'r lleoliad, yn ogystal ag i faterion ymarferol.

Mae'r trefniadau cadarn yn bodoli i werthuso staff, sy'n cynnwys hunanarfarniad gan bob ymarferwr. Mae hyn yn arwain at hyfforddiant perthnasol a defnyddiol iddynt yn ôl yr angen. Caiff hyn effaith glir ar les a datblygiad plant y lleoliad.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol ac yn cefnogi gweledigaeth a gweithgareddau'r lleoliad yn dda. Maent yn gweithredu'n gyfansoddiadol ac mae perthynas dda yn bodoli rhyngddynt a staff y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae ethos o hunanarfarnu cyson yn bodoli o fewn y lleoliad. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gwybod am gryfderau'r lleoliad ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sydd angen ei wella. Maent yn hunanarfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau yn gyson. Mae'r weithdrefn hunanarfarnu'n rhoi ystyriaeth briodol i farn rhieni trwy gyfrwng holiaduron rheolaidd.

Mae'r arweinydd a'r dirprwy arweinydd yn cydweithio'n hwylus i ddadansoddi a gwerthuso cryfderau a diffygion y ddarpariaeth. Mae'r adroddiad hunanarfarnu sy'n deillio o'r trafodaethau hyn yn ddogfen eithaf manwl ac yn rhoi sylw i ystod dda o feysydd. Fodd bynnag, mae'r ddogfen yn rhy ddisgrifiadol ac yn canolbwyntio mwy ar gryfderau'r lleoliad heb roi digon o sylw i agweddau sydd angen eu gwella.

Mae cynllun datblygu'r lleoliad yn ddogfen ddefnyddiol sy'n nodi'n glir pa feysydd sy'n flaenoriaethau gwella ar hyn o bryd. Mae adnoddau digonol a threfniadau pwrpasol yn bodoli ar gyfer ei fonitro a'i werthuso'n effeithiol, ac mae'r arweinydd a'r staff yn mynd i'r afael yn dda â'r blaenoriaethau gwella. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn briodol ac yn targedu meysydd addas sydd angen sylw. Fodd bynnag, nid oes cysylltiad digonol rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau gwella yn y cynllun datblygu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad berthynas dda iawn â'r rhieni. Maent yn derbyn gwybodaeth reolaidd am waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn cymryd camau ymarferol i'w cynnwys yn y gweithgareddau, er enghraifft trwy ofyn iddynt greu pili pala lliwgar gyda'u plant a'u hanfon i'w harddangos yn y lleoliad. Mae hysbysfwrdd ar gyfer rhieni yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ac mae'r arweinydd a'r staff yn cynnig arweiniad defnyddiol i rieni ynglŷn â sut y gallant helpu eu plant.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cadarn ag ysgolion lleol, ac mae trefniadau clir yn bodoli ar gyfer trosglwyddo plant i'r dosbarth meithrin mewn nifer o ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

Mae cydweithio effeithiol yn bodoli rhwng y lleoliad a'r awdurdod lleol, er enghraifft trwy sesiynau hyfforddiant perthnasol, sy'n cyfrannu'n adeiladol iawn at wella'r ddarpariaeth a'r safonau. Mae'r athrawes ymgynghorol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd ac yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad defnyddiol i'r arweinydd a'r staff. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn manteisio'n achlysurol ar wasanaethau arbenigol lleol eraill, fel y gwasanaeth iechyd, i ateb gofynion penodol rhai plant.

Mae perthynas broffesiynol dda rhwng yr ysgol a'r Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg, a chysylltiadau buddiol â phobl a chyflogwyr yn y gymuned. Mae digwyddiadau yn y gymuned, ac ymweliadau gan weithwyr fel adeiladwyr, plismyn a siopwyr lleol, yn cyfoethogi profiad y plant o fywyd yn y gymuned o'u cwmpas. Bu gweithgareddau Eisteddfod yr Urdd yn 2015 yn fodd i gynnig profiadau cyffrous i'r plant, ac i gyfoethogi eu Cymreictod.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n hwylus gyda choleg lleol i ddarparu cyfleoedd hyfforddi perthnasol i fyfyrwyr cyrsiau gofal plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol, ac mae'r arweinydd wedi dyrannu cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae cymwysterau pob aelod o staff yn addas ar gyfer addysgu holl agweddau ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd da iawn o fedrau'r ymarferwyr unigol i sicrhau bod anghenion bron pob plentyn yn cael eu diwallu'n effeithiol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn adnabod anghenion datblygu'r ymarferwyr yn briodol ac yn gosod targedau perthnasol ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. O ganlyniad, mae'r staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddiant sy'n addas i'w hanghenion, sy'n sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfoes am ddatblygiadau addysgol diweddar.

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau i ateb gofynion holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Er nad yw'r ardal allanol yn estyniad naturiol o'r gofod dysgu, mae'n ddiogel ac yn cael ei rheoli'n dda gan y staff. Mae'r arweinydd wedi sicrhau cyflenwad o adnoddau addas a gwneir defnydd effeithiol ohonynt i roi profiadau da i'r plant. Gwneir defnydd da o'r parc cyhoeddus cyfagos hefyd i gyfoethogi'r ddarpariaeth, er enghraifft, i hedfan barcud, a chynnal mabolgampau yn yr haf.

Mae'r pwyllgor a'r arweinydd yn dyrannu cyllid yn briodol i ymateb i flaenoriaethau'r lleoliad. Maent yn gwerthuso gwariant yn ofalus er mwyn ystyried yr effaith ar safonau a lles plant. Caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei ddefnyddio'n bwrpasol i sicrhau adnoddau i hybu medrau llythrennedd disgyblion o gefndiroedd bregus.

Mewn perthynas â safonau plant ac ansawdd yr addysgu, gofal a chyfarwyddyd, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Nerys Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |